General Optical Council

# Papur trafod ar ein dull o bennu ffioedd cofrestreion

**Ebrill 2026**

## Ynglŷn â’r Cyngor Optegol Cyffredinol

Mae’r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rheoleiddio gwasanaethau gofal llygaid yn y DU. Rydym ar hyn o bryd yn cofrestru tua 35,000 o optometryddion, optegwyr, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr-optegwyr cyflenwi a busnesau optegol. Gelwir y grwpiau ar ein cofrestr yn gofrestreion.

Mae gennym bedair prif swyddogaeth:

- pennu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, perfformiad, ac ymddygiad optegol;
- cymeradwyo cymwysterau sy’n arwain at gofrestru;
- cadw cofrestr o unigolion sy’n gymwys i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforedig sy’n addas i redeg busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi; ac
- ymchwilio a gweithredu lle gall addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu barhau mewn busnes fod wedi’i effeithio.

Am ragor o wybodaeth, ewch i’n gwefan: https://www.optical.org/

**Cynnwys**

**Papur trafod ar ein dull o bennu ffioedd cofrestreion .......................................... 1**
**Ynglŷn â'r Cyngor Optegol Cyffredinol ................................................................ 2**
**Trosolwg.................................................................................................................. 4**
**Adran 1: Y system bresennol ar gyfer pennu ffioedd cofrestreion ..................... 8**
**Adran 2: Opsiynau i newid...................................................................................... 12**
**Adran 3: Sut i ymateb i'r papur trafod.................................................................. 30**

## Trosolwg

**Yr hyn rydym yn ei wneud**

1. Diben y papur trafod hwn yw agor trafodaeth â chofrestreion ar opsiynau i newid sut yr ydym yn pennu ffioedd adnewyddu cofrestriadau. Mae'n gofyn a ddylai ffioedd gwahanol grwpiau o gofrestreion amrywio'n ôl cost eu rheoleiddio a ffactorau eraill. Hefyd, rydym yn ystyried opsiynau a allai helpu cofrestreion i reoli costau rheoleiddio'n well, gan gynnwys talu mewn rhandaliadau a bod y GOC yn pennu ffioedd ddwy flynedd neu fwy ymlaen llaw, yn hytrach na phob blwyddyn fel sy'n digwydd yn awr.

2. Nid yw'r papur yn gofyn am sylwadau ar lefel y ffi gofrestru, sy'n cael ei phennu gan y Cyngor bob blwyddyn yn unol â strategaeth ariannol 2025-30 i godi'r ffioedd i gyd-fynd fwy neu lai â chwyddiant. Yn yr hinsawdd economaidd presennol, rydym yn ymwybodol o effeithiau cost rheoleiddio, gan gynnwys y ffi flynyddol i adnewyddu cofrestriad a chostau cydymffurfiaeth. Rydym yn dilyn ystod o fesurau gyda'r nod o wella ein heffeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian, yn ogystal ag adolygu ein gofynion rheoleiddio i sicrhau bod y rhain yn gymesur.

3. Y man cychwyn i'r papur hwn yn hytrach yw bod yn rhaid cofio y bydd angen lefel sylfaenol o incwm arnom bob amser i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio boed ni'n penderfynu newid sut mae'r incwm hwn yn cael ei ddosbarthu ymhlith y gwahanol grwpiau o gofrestreion neu'n penderfynu cadw'r system bresennol lle'r mae'r rhan fwyaf o gofrestreion yn talu'r un ffi.

4. Mae'r opsiynau'n dod o fewn pum grŵp:
   - Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'n dull o bennu ffioedd
   - Ffioedd gwahaniaethol – mae'r opsiynau'n cynnwys
     - Ffioedd is i optegwyr cyflenwi
     - Ffioedd uwch i gofrestreion â chymwysterau arbenigol
     - Ffioedd is i gofrestreion newydd gymhwyso
     - Cynllun gostyngiadau mwy hael i rai ar incymau isel
     - Ffioedd is i gofrestreion ar absenoldeb mamolaeth neu debyg
   - Ymestyn hyblygrwydd taliadau – talu mewn rhandaliadau
   - Ffioedd cofrestreion busnes – mae'r opsiynau'n cynnwys
     - Newid y cydbwysedd incwm rhwng cofrestreion busnes ac unigol
     - Newid o ffi sefydlog i ffioedd gwahaniaethol sy'n ddibynnol ar faint y busnes
     - Talu mewn rhandaliadau
   - Rhoi eglurder i gofrestreion – mae'r opsiynau'n cynnwys
     - Ymgynghori ar gynlluniau wedi'u costio a ffioedd
     - Ffioedd unflwydd neu aml-flwyddyn

5. Nid ydym yn gwneud cynigion penodol ar hyn o bryd. Yn hytrach, rydym am ddeall a oes awydd am newid a beth fyddai natur y newid hwnnw.


## Pam rydym yn gwneud hyn yn awr

6. Mae ein strategaeth gorfforaethol am 2025-30 yn cynnwys ymrwymiad i "adolygu ein dull o bennu ffioedd cofrestru, gwella tegwch, a sicrhau gwerth am arian, gan sicrhau bod y ffioedd a bennir gennym yn ddigonol i dalu ein costau gweithredol ac i gynnal ein cronfeydd wrth gefn o fewn y terfynau y cytunwyd arnynt".

7. Mae'r papur trafod hwn yn cael ei gyhoeddi mewn cyfnod o amodau economaidd anodd, sy'n gyfrifol am bwysau ariannol ar yr unigolion a'r busnesau a reoleiddir gennym. Mae hyn yn cael ei fynegi drwy anfodlonrwydd cynyddol ynglŷn â'r ffi adnewyddu. Fel y gwelir yn Siart 1, dim ond 38% o optometryddion, 20% o optegwyr cyflenwi ac 11% o fusnesau sy'n teimlo bod y ffioedd a bennir gennym yn rhesymol. Yn y data, mae ymatebwyr sy'n teimlo nad yw ein ffioedd yn rhesymol yn fwy tebygol o gynllunio i adael y proffesiwn o fewn y ddwy flynedd nesaf. Yn amlwg, rydym am osgoi sefyllfa lle mae ffioedd adnewyddu'n cyfrannu at roi pwysau ar y proffesiwn.

8. O gofio ein hamcan strategol i greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol, rydym yn awyddus i weld a oes model tecach o bennu ffioedd cofrestru a dulliau i helpu cofrestreion i reoli costau rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai dulliau gwahanol o bennu ffioedd effeithio ar wahanol grwpiau o gofrestreion, ac a oes unrhyw effeithiau anfwriadol, er enghraifft ar fynediad at y gofrestr neu gadw'r gweithlu.

**Siart 1 – Y gostyngiad mewn lefelau bodlonrwydd cofrestreion â'r ffioedd**



Mae'r siart yn dangos data o arolygon cofrestreion 2021-25 ac arolygon cofrestreion busnes yn 2024 a 2025. Mae cyfanswm y colofnau bar yn dangos cyfanswm yr ymatebion cytuno'n gryf a chytuno i'r cwestiwn: Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu anghytuno bod ffioedd cofrestru'r GOC yn rhesymol.

9. Ein gobaith yw y bydd y papur trafod hwn yn gwella ymgysylltiad â chofrestreion ynglŷn â ffioedd. Rydym yn cydnabod yr angen i wella tryloywder o ran ffioedd fel ffordd o wella ymgysylltiad. Mae Adran 1 o'r papur trafod hwn yn egluro sut mae'r system ffioedd yn gweithio ac mae'n dangos sut mae incwm ffioedd yn ariannu ein gwaith gan gynnwys siart cylch tebyg i rai'r dreth gyngor sy'n dangos gwariant ar ein holl weithgarwch. Rydym yn credu y bydd penderfynu ar ffioedd sy'n seiliedig ar egwyddorion cytunedig hefyd yn gwella tryloywder.

10. Rydym yn cydnabod bod costau rheoleiddio'n cynnwys cydymffurfio â'n gofynion, gan gynnwys amser yn ogystal â gwariant, mewn meysydd fel indemniad proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Yn wir, i lawer o gofrestreion, bydd y costau hyn yn uwch na'r ffi adnewyddu blynyddol. Yn ystod oes strategaeth 2025-30, rydym yn bwriadu adolygu ein trefniadau rheoleiddio i sicrhau bod ein gofynion wedi'u seilio ar risgiau a'u bod yn gymesur, gan ddechrau drwy adolygu ein system DDP. Fodd bynnag, mae ein harolygon yn dangos nad yw llawer o'r costau cydymffurfiaeth y mae cofrestreion busnes yn teimlo sy'n afresymol yn deillio o reoleiddio'r GOC, ond yn hytrach o rwymedigaethau cyfreithiol (e.e. diogelu data, diogelu) a gofynion contractau'r GIG.

11. Yn olaf, rydym yn ddigon realistig i sylweddoli na fydd talu am reoleiddio byth yn boblogaidd. Fodd bynnag, drwy wella ein hymgysylltiad â chofrestreion

ynglŷn â ffioedd, gan gynnwys drwy'r papur trafod hwn, rydym yn gobeithio cael dealltwriaeth o'r buddion ariannol ac eraill a ddaw i gofrestreion yn sgil rheoleiddio, yn ogystal ag i gymdeithas yn gyffredinol. Mae cyflawni ein cenhadaeth – gwarchod y cyhoedd drwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid – yn rhoi'r hyder i ddinasyddion i brynu'r nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan gofrestreion, sy'n gwneud gyrfaoedd optegol yn fwy deniadol, sy'n hybu cystadleuaeth deg, sy'n creu amodau sy'n hwyluso buddsoddi, ac sy'n helpu llywodraethwyr a chomisiynwyr gwasanaethau ym mhob un o'r pedair cenedl i symud mwy o ofal llygaid i'r cymunedau.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

12. Bydd y papur trafod yn agored i dderbyn sylwadau am 12 wythnos tan 20 Gorffennaf. Gallwch ymateb naill ai drwy ddefnyddio ein platfform ymgynghori ar-lein neu drwy anfon e-bost i consultations@optical.org.

13. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r holl sylwadau a gafwyd ac yn ystyried a oes angen inni wneud newidiadau i'n system ffioedd. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r adborth a gafwyd ac yn disgrifio ein camau nesaf.

## Adran 1: Y system bresennol ar gyfer pennu ffioedd cofrestreion

14. Fel gwybodaeth gefndir, yn yr adran hon byddwn yn disgrifio sut mae ein system bresennol ar gyfer pennu ffioedd cofrestreion yn gweithio a'r incwm a gynhyrchir o'r gwahanol ffioedd a godir gennym. Rydym yn egluro hefyd sut mae ein hincwm o ffioedd cofrestreion yn cael ei wario ar ein gwahanol weithgarwch i helpu i gyflawni ein swyddogaethau statudol.

### Ffynonellau incwm

15. Mae'r ffi adnewyddu cofrestriad blynyddol yn cyfrif am bron y cyfan o incwm y GOC – 96% yn 2024/25. Daw ein hunig ffynonellau incwm eraill o fuddsoddiadau a ffioedd darparwyr DDP. Nid ydym yn cael dim arian gan y trethdalwyr.

16. Rydym yn codi cyfres o ffioedd eraill i ymgeiswyr am gofrestru am y tro cyntaf ar ein cofrestrau, adferiad i'n cofrestrau a throsglwyddo rhwng cofrestrau. Mae ffioedd amrywiol hefyd am asesu unigolion o'r tu allan i'r DU sydd am gael eu cynnwys ar ein cofrestr. Yn olaf, mi allwn bennu ffioedd ategol am weithgarwch penodol fel llythyrau cadarnhau.

17. Mae rhestr o'r ffioedd cyfredol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Mae cofrestreion â chymwysterau llawn a busnes yn cael eu hysbysu'n flynyddol bob mis Rhagfyr o'r ffi newydd ac mae angen iddynt ddangos eu bod am barhau ar y gofrestr erbyn y dyddiad cau cyntaf, sef 15 Mawrth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r ffurflen barhau a gwneud taliad drwy eu cyfrif MyGOC. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau hyn yw 31 Mawrth. Mae angen i fyfyrwyr anfon eu ffurflen barhau a gwneud taliad erbyn y dyddiad cau cyntaf, sef 15 Gorffennaf, gyda'r dyddiad cau olaf ar 31 Awst. Bydd methiant i weithredu erbyn y dyddiadau cau hyn yn arwain at eu tynnu oddi ar y gofrestr.

18. Fel sefydliadau eraill, rydym yn cadw cronfeydd wrth gefn priodol, sy'n cael eu defnyddio i ariannu prosiectau strategol fel uwchraddio'r platfform cofrestru MyGOC. Ni ddylem ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu ein gweithgarwch busnes fel arfer, felly mae'n bwysig bod ein hincwm ffioedd yn gallu talu am gostau'r gwaith o ddydd i ddydd a ragwelir.

### Gwahanol gategorïau cofrestru a'r ffioedd a godir

19. Mae'r GOC yn unigryw ymhlith rheoleiddwyr gofal iechyd yn yr ystyr ein bod yn rheoleiddio tri chategori penodol o gofrestreion: myfyrwyr, gweithwyr proffesiynol â chymwysterau llawn a busnesau. Mae gan weithwyr proffesiynol â chymwysterau llawn gymwysterau ôl-gofrestru arbenigol, sef optegwyr cyflenwi annibynnol ac optegwyr lensys cyffwrdd.

20. Mae'r llywodraeth yn bwriadu moderneiddio'r ddeddfwriaeth ar gyfer yr holl reoleiddwyr gofal iechyd ond nid yw'n hysbys eto pa bryd y bydd deddfwriaeth y GOC yn cael ei diweddaru. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym yn disgwyl rheoleiddio'r holl fusnesau optegol sy'n ymgymryd â gweithgareddau cyfyngol o dan y Ddeddf Optegwyr a pheidio â rheoleiddio myfyrwyr wedi hynny. Fodd bynnag, gan nad yw'r newid deddfwriaethol yn debygol yn y tymor byr, rydym yn trin hyn fel ffactor yn y cefndir wrth ystyried ein dull o bennu ffioedd cofrestreion.

21. Mae cofrestreion â chymwysterau llawn a chofrestreion busnes yn talu'r un ffi adnewyddu cofrestriad blynyddol, a oedd yn £415 yn 2025/26. Nid yw optegwyr lensys cyffwrdd na chyflenwyr annibynnol yn talu ffi ychwanegol. Mae myfyrwyr yn talu ffi adnewyddu cofrestriad blynyddol is, a oedd yn £30 yn 2025/26.

22. Mae rhai sydd ar incwm isel (llai na £16k) yn talu ffi ostyngol, a oedd yn £285 yn 2025/26. Gellir gofyn i ymgeiswyr ddangos prawf o'u hincwm.

23. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o niferoedd y cofrestreion ym mhob categori a maint a chyfran yr incwm a gawsom ym mlwyddyn ariannol 2024/25, sef ein cyfrifon archwiliedig diweddaraf. Yn y flwyddyn hon, roedd y brif ffi adnewyddu cofrestriad blynyddol yn £405.

**Tabl 1 – Trosolwg o incwm adnewyddu ffioedd blynyddol cofrestreion (2024/25)**

| Math o gofrestrai | Ffi | Nifer | % | Incwm (£k) | % |
|---|---|---|---|---|---|
| Myfyrwyr-optometryddion | £30 | 4,846 | 14.7% | 145 | 1.3% |
| Myfyrwyr-optegwyr cyflenwi | £30 | 1,137 | 3.4% | 34 | 0.3% |
| Cyfanswm y Myfyrwyr | | 5,983 | 18.1% | 179 | 1.6% |
| Optometryddion â chymwysterau llawn | £405 | 16,780 | 50.7% | 6,796 | 61.6% |
| Optegwyr cyflenwi â chymwysterau llawn | £405 | 6,525 | 19.7% | 2,643 | 23.9% |
| Cynllun incwm isel | £285 | 935 | 2.8% | 266 | 2.4% |
| Cyfanswm â chymwysterau llawn | | 24,240 | 73.2% | 9,705 | 87.9% |
| Cyrff corfforedig | | 2,852 | 8.6% | 1,155 | 10.5% |
| Cyfanswm y nifer sy'n adnewyddu 2024/25 | | 33,075 | 100% | 11,040 | 100% |
| Incwm cofrestru arall | | | | 632 | |
| Cyfanswm yr Incwm Cofrestru 2024/25 | | | | 11,672 | |

**Sut yr ydym yn pennu ffioedd cofrestru**

24. Mae’r Cyngor yn cytuno ar y ffioedd cofrestru bob mis Rhagfyr, cyn y cylch adnewyddu cofrestriadau nesaf. Gall unrhyw un arsylwi ar y cyfarfodydd hyn ac mae’r papurau sy’n nodi’r ffioedd arfaethedig a’r rhesymau sy’n sail iddynt yn cael eu cyhoeddi i bawb eu gweld.

25. Rydym yn gweithredu’n ôl strategaeth gorfforaethol bum mlynedd a chynlluniau busnes blynyddol. Mae strategaeth gorfforaethol 2025-30 yn cael ei hategu gan strategaeth ariannol ar gyfer yr un cyfnod. Mae hyn yn nodi y bydd ein hincwm yn parhau i ddeillio’n bennaf o’r ffioedd a godir ar gofrestreion i ymuno neu i barhau ar y gofrestr, ac ni fyddwn yn mynd ati i ddatblygu ffynonellau incwm newydd. Rydym yn disgwyl y bydd lefelau’r incwm yn cynyddu’n raddol, yn unol â chwyddiant a thwf y gofrestr.

26. Mewn geiriau eraill, ym mhob cylch y cynllun busnes blynyddol sy’n cychwyn ym mis Medi, mae’r weithrediaeth yn amcangyfrif cost y gweithgarwch a gynlluniwyd am y flwyddyn i ddod. Creffir ar y cynlluniau hyn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) – un o bwyllgorau’r Cyngor. Mae’r cyllidebau hyn ynghyd ag ystyriaeth i dybiaethau a risgiau’n llywio’r ffioedd cofrestru a bennir gan y Cyngor ym mis Rhagfyr. Mae’r penderfyniad hwn yn galluogi’r weithrediaeth i gadarnhau cynlluniau busnes a chyllidebau arfaethedig ar gyfer adrannau, sy’n cael eu hadolygu gan ARC ym mis Rhagfyr. Gofynnir i’r Cyngor gymeradwyo’r cynllun busnes a’r gyllideb derfynol bob mis Mawrth.

**Lle’r ydym yn gwario ein hincwm**


27. Ein nod wrth bennu ffioedd yw ariannu costau ein gweithrediadau a chyflawni ein swyddogaethau statudol o’r refeniw a gafwyd. Mae ein swyddogaethau statudol yn cynnwys goruchwylio’r system addysg a hyfforddiant, cynnal y cofrestrau, pennu safonau proffesiynol a’n gweithgarwch addasrwydd i ymarfer. Rydym hefyd yn ariannu’r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol – gwasanaeth cyfryngu mewn anghydfodau â defnyddwyr. Mae incwm ffioedd hefyd yn talu costau a ffioedd ein staff, gweithwyr ac aelodau, gofod swyddfa, a’r holl weithgareddau a gwasanaethau sy’n ein galluogi i wneud ein gwaith. Rhaid inni hefyd dalu tâl blynyddol (tua £100k ar hyn o bryd) i’n rheolydd goruchwylio, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

28. Rhaid inni hefyd ddangos gwerth gwirioneddol am arian. Fel rhan o’n strategaeth am 2025-30, rydym wedi datblygu fframwaith adrodd ar berfformiad i’n helpu i fesur llwyddiant ein strategaeth. Mae ein dull yn cynnwys:

- Parhau i adrodd ar ddangosyddion llwyddiant allweddol ar ein perfformiad gweithredol a'n cynnydd i gyflawni gweithgarwch y cynllun busnes drwy bapurau cyhoeddus y Cyngor ac yn ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol
- Dogfennaeth i'r PSA i ategu ei asesiad o'n perfformiad
- Mabwysiadu dull gwireddu buddion yn ein gwaith prosiect
- Dull basged o ddangosyddion i fesur canlyniadau lefel uchel a amlygwyd drwy ein harolygon, data mewnol a ffynonellau o ddata allanol dibynadwy.

29. I wella tryloywder, rydym wedi cynhyrchu siart cylch, ac rydym yn bwriadu ei ddiweddaru'n flynyddol, sy'n dangos sut mae'r incwm hwn yn cael ei wario ar ein gweithgarwch allweddol.

**Siart 2 – Gwariant ar ein gweithgarwch allweddol (2024/25)**



## Adran 2: Opsiynau i newid

31. Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio opsiynau i newid ein dull o bennu ffioedd cofrestreion. Nid ydym ar hyn o bryd yn gwneud cynigion penodol ond rydym am wybod a oes awydd i newid a beth yw'r cyfeiriad a ffefrir ar gyfer y newid hwnnw.

32. Mae'r opsiynau wedi'u rhannu'n pum grŵp:

- Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'n dull o bennu ffioedd
- Ffioedd gwahaniaethol
- Gwella hyblygrwydd talu
- Ffioedd cofrestreion busnes
- Rhoi eglurder i gofrestreion

**Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'n dull o bennu ffioedd**

33. Rydym o'r farn y bydd cyhoeddi set o egwyddorion allweddol sy'n ategu ein dull o bennu ffioedd yn gwella tryloywder ac ymgysylltiad cofrestreion â ffioedd. Mae ein dadansoddiad o opsiynau ar gyfer newid a ddangosir isod wedi'i lywio gan yr egwyddorion hyn.

34. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r egwyddorion hyn roi cydbwysedd rhwng tegwch, fforddiadwyedd a thryloywder i gofrestreion gan sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'r GOC, gan gydnabod na fydd yr ystyriaethau hyn yn cyd-fynd bob tro.

35. Mae'n debygol y bydd gwrthdaro rhwng yr egwyddorion yn achos rhai o'r opsiynau polisi. Os digwydd hyn, yr her yw ceisio cael y cydbwysedd gorau rhyngddynt mewn ffordd sy'n gydnaws â gwerthoedd ac amcanion strategol ein sefydliad.

36. Rydym yn croesawu sylwadau ar y deg egwyddor drafft isod, sy'n seiliedig ar bolisïau ffioedd a ddefnyddir gan reoleiddwyr gwasanaethau proffesiynol eraill.

- Mae'n adlewyrchu costau rheoleiddio gwahanol grwpiau o gofrestreion
- Mae'n deg i gofrestreion ac wedi'i seilio ar eu gallu i dalu
- Mae'n ystyried ffactorau allanol gan gynnwys amodau economaidd a meincnodi â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill
- Mae'n effeithiol a darbodus o ran ei weinyddu
- Mae'n cynhyrchu incwm y mae modd ei ragweld i dalu costau rheoleiddio
- Bydd yn sefydlog – ni ddylai ffioedd amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn
- Mae'n hawdd i gofrestreion ac eraill ei ddeall
- Mae'n seiliedig ar ddata y gellir eu dilysu

- Mae'n dryloyw ac yn dangos gwerth am arian
- Mae'n gydnaws â Strategaeth Ariannol y GOC

**C1. Rhowch sylwadau ar y deg egwyddor**

**Ffioedd gwahaniaethol**

37. Fel yr eglurwyd yn Adran 1, mae'r GOC yn pennu'r un ffi adnewyddu cofrestriad blynyddol ar gyfer cofrestreion â chymwysterau llawn a busnesau. Mae myfyrwyr yn talu ffi sylweddol is ac mae gostyngiad i rai ar incwm isel. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai rheoleiddwyr yn pennu ffioedd gwahanol ar gyfer gwahanol gategorïau o gofrestreion a/neu'n gwneud mwy o ddefnydd o ostyngiadau nag yr ydym ni.

38. Mae manteision mewn cadw ein model ffioedd unffurf, sy'n hawdd ei ddeall i gofrestreion ac sy'n effeithlon i ni o ran ei weinyddu. Fodd bynnag, ar ôl ystyried ein hegwyddorion drafft ar bennu ffioedd ac adborth cofrestreion ar ein ffioedd, rydym yn awyddus i ganfod barn ar bennu ffioedd gwahaniaethol.

39. Mae ffioedd gwahaniaethol yn broblem pan fydd tyndra rhwng y deg egwyddor allweddol drafft. Ar yr ochr bositif, gallai wneud y model ffioedd yn decach drwy adlewyrchu costau rheoleiddio gwahanol grwpiau o gofrestreion, yn ogystal ag ystyried y pwysau ariannol trymach sydd ar rai cofrestreion. Fodd bynnag, byddai'n fwy cymhleth inni eu gweinyddu ac mewn rhai achosion byddai'n rhaid cyflwyno prawf modd, a threfniadau cydymffurfio a gorfodi. Byddai'n rhaid trosglwyddo'r costau gweinyddu ychwanegol ymlaen i'r cofrestreion ar ffurf ffioedd uwch.

40. Y cyntaf o'n deg egwyddor yw y dylai'r ffioedd a bennir gennym adlewyrchu costau rheoleiddio'r gwahanol grwpiau. Mae rhai o'n gweithgareddau, fel cynnal y gofrestr, yn gofyn am yr un faint o waith, ac felly'r un gost, ar gyfer pob math o gofrestrai. Fodd bynnag, mae'r costau rydym yn eu hysgwyddo fel addasrwydd i ymarfer, sydd oherwydd natur y gwaith hefyd yn costio mwy i'w weithredu, wedi'i ystumio tuag at optometryddion gan fod y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â'r grŵp hwn o gofrestreion. Fel y gwelir yn Siart 1, mae gwaith addasrwydd i ymarfer yn cyfrif am tua 39% o gyfanswm ein costau. Hyd yn oed wedyn, er y byddai fel arfer yn decach i ddyrannu costau rheoleiddio i'r sawl a effeithir, mi ellid cyfiawnhau elfen o draws-gymorthdalu rhwng grwpiau ar sail tegwch. Mae'r GOC eisoes wedi mabwysiadu hyn drwy'r cynllun ffioedd i rai ar incymau isel. Bydd deall barn cofrestreion yn ein helpu i gael y cydbwysedd cywir rhwng y gwahanol ffactorau cyferbyniol hyn.

41. Mae'n bwysig cofio na fyddai pennu ffioedd gwahaniaethol yn newid cyfanswm yr incwm y byddai'n rhaid inni ei gasglu oddi wrth gofrestreion. Felly, os byddai incwm ein ffioedd gan un grŵp o gofrestreion yn gostwng, byddai'n rhaid i incwm ffioedd o grwpiau eraill gynyddu. Rydym wedi modelu isod effaith sawl math o ffioedd gwahaniaethol gan nodi faint o gofrestreion a fyddai'n elwa, ac o faint, a chyfrifo pa newid i'r ffi safonol fyddai ei angen i wneud iawn am y gwahaniaeth.

*Opsiwn 1 – Ffioedd is i optegwyr cyflenwi*

42. Mi allem ystyried pennu ffioedd is i optegwyr cyflenwi gan fod costau eu rheoleiddio hwy'n is nag optometryddion. Ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf mae optegwyr cyflenwi wedi eu tangynrychioli mewn ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer fel cyfran o gyfanswm nifer y cofrestreion.[1] Nodwn fod y Cyngor Fferyllol Cenedlaethol yn codi ffioedd is ar dechnegwyr fferyllfa o'i gymharu â fferyllwyr oherwydd bod llai ohonynt yn mynd drwy ei broses addasrwydd i ymarfer. Yn fwy cyffredinol, mae natur llai clinigol gwaith optegwyr cyflenwi'n golygu bod eu proffil risg yn is o'i gymharu ag optometryddion. Nodwn hefyd lefelau bodlonrwydd sylweddol is â lefelau ffioedd ymhlith optegwyr cyflenwi (20%) o'i gymharu ag optometryddion (38%) yn ein harolwg o gofrestreion. O ran y gallu i dalu, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng cyflogau'r ddau grŵp yn ôl gwybodaeth ar fyrddau swyddi ac mewn arolygon[2]. Yn olaf, mae ein dadansoddiad o ddata cofrestru'n dangos bod optegwyr cyflenwi'n profi cyfraddau gadael sylweddol uwch yn gynnar ac ar ganol gyrfa o'i gymharu ag optometryddion a gwelir arosiadau cofrestru canolrifol o 15.8 mlynedd (31.5 mlynedd i optometryddion). Ar y llaw arall, mae optometryddion sy'n ymadael yn fwy tebygol o fod yn y band oed ymddeol, sy'n cyfateb i weithlu uwch, mwy sefydlog.

43. Mae'r ffactorau sy'n erbyn pennu ffioedd is i optegwyr cyflenwi'n cynnwys yr effaith negyddol bosibl ar eu perthynas ag optometryddion a chanfyddiadau o statws y proffesiwn. Mewn rhai meysydd mae optegwyr cyflenwi'n creu mwy o waith inni, er enghraifft, methodd 3% ein gofynion DPP yng nghylch 2022-24 o'i gymharu ag 1% o optometryddion. Hefyd, mae ein harolwg o gofrestreion yn dangos bod cyflogwyr yn fwy tebygol o dalu ffioedd adnewyddu i optegwyr

[1] Yn 2024/25, roedd optometryddion yn cyfrif am 58.6% o'r gofrestr, ond yn cyfrif am 74.2% o'r cofrestreion a oedd yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer. Roedd optegwyr cyflenwi'n cyfrif am 21.3% o'r gofrestr ac 11.7% o'r rhai a oedd yn destun ymchwiliad. Roedd myfyrwyr-optometryddion yn cyfrif am 16.2% o'r gofrestr ac 11.7% o'r rhai a oedd yn destun ymchwiliad.

[2] Canfu Arolwg Tâl a Gwobrwyo 2025 ABDO fod cyflogau optegwyr cyflenwi gan amlaf yn y cyfwng £28-34k, gan gyfrifo bod y cyfartaledd yn £31,262. Mae hyn yn cynnwys yr holl ymatebwyr sy'n gweithio'n rhan amser a llawn amser.

cyflenwi (66%) nag i optometryddion (44%), a all leddfu rhai o'r pryderon am y gallu i dalu[3].

44. Mae'r tabl isod yn dangos effaith pennu ffioedd is i optegwyr cyflenwi ar y ffi adnewyddu cofrestriad safonol gan ddefnyddio graddfa symudol. Er enghraifft, gan ddefnyddio niferoedd y cofrestreion ar 31 Mawrth 2025 a'r ffi adnewyddu safonol o £415 fel gwaelodlin, pe bai ffioedd i optegwyr cyflenwi yn cael eu gostwng £50 i £365, a chan dybio dim newidiadau i ffioedd myfyrwyr a dim costau gweinyddol, byddai angen i bob cofrestrai sy'n optometrydd a busnes dalu £15.71 yn ychwanegol.

**Tabl 2 – modelu effaith ffioedd is i optegwyr cyflenwi**

| Lleihau i optegwyr cyflenwi | Ffi newydd i optegwyr cyflenwi | Ffi safonol newydd |
|---|---|---|
| £25 | £390 | £422.85 (cynnydd o £7.85) |
| £50 | £365 | £430.71 (cynnydd o £15.71) |
| £75 | £340 | £438.56 (cynnydd o £23.56) |
| £100 | £315 | £446.42 (cynnydd o £31.42) |

Opsiwn 2 – *Ffioedd uwch i gofrestreion â chymwysterau arbenigol*

45. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 3,318 o gofrestreion â chymwysterau arbenigol y GOC gan gynnwys 1,196 o optegwyr lensys cyffwrdd a 2,122 o gyflenwyr annibynnol. Roedd 24,332 o gofrestreion â chymwysterau llawn heb y cymwysterau hyn.

46. Rydym eisoes yn codi ffi ar wahân am gofrestriad cychwynnol fel optegydd lensys cyffwrdd neu optometrydd â hawliau cyflenwi annibynnol. Mi ellid pennu ffioedd adnewyddu cofrestriad blynyddol uwch ar gyfer y cofrestreion hyn. Byddai hyn yn adlewyrchu eu gweithgarwch clinigol uwch a'r gwaith ychwanegol i'r GOC o gynnal y cofrestrau arbenigol a chymeradwyo cymwysterau. Ffactor yn erbyn pennu ffioedd uwch i'r grŵp hwn yw'r perygl o ddatgymell cofrestreion rhag ennill cymwysterau arbenigol, er nad yw hwn yn debygol o fod yn berygl sylweddol. Rydym yn ymwybodol y bydd y cenedlaethau o optometryddion yn yr Alban yn y dyfodol yn cymhwyso gyda hawliau cyflenwi annibynnol, a fyddai'n creu gwahaniaethau mewn ffioedd rhwng cenhedloedd y DU.

47. O gofio nifer cymharol fychan y cofrestreion â chymwysterau arbenigol mi fyddai'r effaith ar y ffi adnewyddu safonol yn fychan. Er enghraifft, gan fodelu'r

[3] Yn Arolwg Tâl a Gwobrwyo 2025 ABDO dywedodd tua naw o bob deg ymatebwr bod eu cyflogwr yn talu eu ffi adnewyddu i'r GOC.

effaith yn seiliedig ar ffi adnewyddu safonol o £415 a chan dybio dim newid i ffioedd myfyrwyr, byddai ffi atodol o £50 ar gyfer cofrestreion arbenigol yn cynhyrchu arbedion o £6.60 i bob cofrestrai â chymwysterau llawn a busnes (gweler Tabl 3).

**Tabl 3 – modelu effaith ffioedd uwch ar gyfer cofrestreion arbenigol**

| Ffi atodol | Ffi arbenigol newydd | Ffi safonol newydd |
|---|---|---|
| £25 | £440 | £411.70 (gostyngiad o £3.30) |
| £50 | £465 | £408.40 (gostyngiad o £6.60) |
| £75 | £490 | £405.10 (gostyngiad o £9.90) |
| £100 | £515 | £401.81 (gostyngiad o £13.19) |

Opsiwn *3 – Ffioedd is i gofrestreion newydd gymhwyso*

48. Mi ellid cyflwyno ffioedd is i gofrestreion newydd gymhwyso am gyfnod penodol. Gallai'r gostyngiad hwn fod yr un faint ym mhob un o'r blynyddoedd cymwys neu mi allai leihau'n raddol fel ei fod ar ei uchaf yn y flwyddyn gyntaf ac yn lleihau dros y blynyddoedd dilynol. Byddai hyn yn helpu i gael model ffioedd tecach sy'n adlewyrchu lefelau dyledion graddedigion a'u cyflogau is yn gynnar yn eu gyrfaoedd. Er y byddai hyn yn fwy cymhleth i'w weinyddu na model ffi sefydlog, mi fyddai'n symlach na rhai opsiynau eraill sy'n cael eu hystyried. Ni fyddai angen i gofrestreion ddangos eu bod yn gymwys gan y byddai'r wybodaeth hon wedi'i chadw eisoes ar ein systemau cofrestru.

49. Fel enghraifft, rydym wedi modelu gostyngiad o 50% yn y ddwy flynedd gyntaf, sef y system a ddefnyddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal[4]. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 2,234 o gofrestreion wedi ymuno â'r gofrestr yn y ddwy flynedd flaenorol (ac eithrio adferiadau). Byddai gostyngiad o 50% ar y brif ffi o £415 i'r nifer hwn o gofrestreion yn golygu gostyngiad blynyddol o £463,555 mewn incwm ffioedd. Gan dybio na fyddai dim costau gweinyddol blynyddol, ac na fyddai myfyrwyr yn talu mwy, byddai'n rhaid inni gyflwyno cynnydd o £17.67 yn y ffi gofrestru safonol a delir gan bob cofrestrai â chymwysterau llawn a chofrestreion busnes i wneud iawn am y diffyg.

*Opsiwn 4 – Cynllun gostyngiadau mwy hael i rai ar incwm isel*

50. Mae gan y GOC gynllun gostyngiadau ar gyfer rhai ar incwm isel lle mae cofrestreion yn gymwys i gael gostyngiad ar eu ffioedd os yw eu henillion yn llai nag £16k. Mae maint y gostyngiad wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd

[4] Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol hefyd yn pennu ffioedd is i gofrestreion newydd gymhwyso.

diwethaf gan fod y ffi incwm isel wedi aros yr un faint tra bod y ffi safonol wedi codi. Mae’r ffi incwm isel am 2026/27 yn £290, £135 yn is na’r brif ffi (gostyngiad o 33%). Mae defnydd da’n cael ei wneud o’r cynllun; mae data adnewyddu 2025/26 yn dangos bod 942 o geisiadau llwyddiannus wedi’u gwneud i’r cynllun, sy’n cyfateb i 3.9% o’r cofrestreion â chymwysterau llawn. Optometryddion benywaidd rhwng 30-39 oedd wedi gwneud y nifer mwyaf o geisiadau llwyddiannus, ac mi oedd 36% o’r ymgeiswyr llwyddiannus yn optegwyr cyflenwi.

51. Mi ellid ystyried cynyddu maint y gostyngiad incwm isel a/neu’r trothwyon cymhwyso. Mae’r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn cynnig gostyngiad o 50% i gofrestreion sy’n ennill llai na £36k. Gan nad ydym yn casglu gwybodaeth am gyflogau nid oes modd inni fodelu’r effaith ariannol. Fodd bynnag, pe baem yn dilyn cynllun y GMC, mae’r data sydd ar gael yn dangos y byddai llawer o optegwyr cyflenwi a rhai optometryddion newydd gymhwyso’n gymwys i gael y gostyngiad. Mantais creu cynllun incwm isel mwy hael fyddai adeiladu ar arferion presennol, ac mi allai fod yn opsiwn yn lle cyflwyno elfennau newydd i’r system ffioedd, fel y byddai opsiynau 1 a 3 yn ei wneud.

52. Ymhlith y ffactorau sy’n erbyn yr opsiwn hwn yw nad yw’n adlewyrchu’r gost o reoleiddio gwahanol grwpiau, a gall ddibynnu’n ormodol ar ystyriaethau gallu i dalu. Hefyd, byddai’n golygu mwy o ansicrwydd yn ei amcanestyniadau incwm. Nid yw incwm isel bod amser yn ddangosydd da o allu i dalu, oherwydd er enghraifft, bydd rhai pobl yn dewis gweithio llai o oriau am eu bod yn gallu fforddio hynny. Pe baem yn ymestyn y cynllun i gynnwys mwy o gofrestreion, mae’n debygol y byddai’n rhaid cyflwyno gwiriadau cymhwysedd mwy llym i sicrhau na fyddai’r cynllun yn cael ei gamddefnyddio. Byddai hyn yn arwain at fwy o gostau gweinyddol a fyddai’n cael eu hadlewyrchu mewn ffioedd adnewyddu blynyddol uwch i gofrestreion eraill.

*Opsiwn 5 – Ffioedd is i gofrestreion ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tebyg*

53. Mi ellid ystyried ffioedd is i gofrestreion ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, rhiant neu fabwysiadu. Mae’r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol a’r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr hefyd yn gweithredu cynlluniau o’r fath.

54. O blaid hyn, mi fyddai’n hybu model ffioedd tecach ac yn lleihau’r risg na fyddai’r gweithwyr hyn yn dychwelyd i’r proffesiwn ar ôl i’w cyfnod o absenoldeb ddod i ben. Am nad yw’r cofrestreion hyn yn ymarfer ar y pryd nid ydynt yn gymaint o risg reoleiddiol. Hefyd, byddai’n ddigon hawdd i gofrestreion ddangos eu bod yn gymwys i gael y gostyngiad. Er hynny, mi fyddai’n golygu costau gweinyddol y byddai’n rhaid eu trosglwyddo drwy’r system ffioedd.

55. Mae ein hadroddiadau monitro EDI blynyddol am 2024/25 yn awgrymu bod 1,933 o gofrestreion (6%) yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn fel man cychwyn, a thybio gostyngiad o 50% yn y ffi flynyddol ac na fyddai myfyrwyr yn talu mwy, byddai angen inni gynyddu'r ffi gofrestru safonol £10.75 i bob cofrestrai â chymwysterau llawn a chofrestreion busnes i wneud iawn am y diffyg.

*Opsiynau eraill a ddiystyrwyd gennym*

56. Yn ddamcaniaethol, byddai modd cyflwyno system o ffioedd graddedig sy'n seiliedig ar enillion neu batrwm gweithio (e.e. llawn neu ran amser). Fodd bynnag, er yn seiliedig ar y gallu i dalu, ni fyddai'r opsiynau hyn yn adlewyrchu costau rheoleiddio, byddai'n anodd dilysu'r wybodaeth a byddai'n gostus i'w gweinyddu. Mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach wrth i enillion a phatrymau gweithio newid yn ystod y flwyddyn. Uchod rydym wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer ffioedd gwahaniaethol sy'n seiliedig ar ystyriaethau incwm na fyddai'n achosi cymaint o anawsterau ymarferol.

*Ystyriaethau cydraddoldeb*

57. Mae'n bwysig ystyried effeithiau'r opsiynau ar gyfer newid ar gydraddoldeb. Er nad yw'r papur tafod hwn yn gwneud cynigion pendant, mae bwriad i annog trafodaethau gwybodus a chytbwys ar degwch, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, gan gynnwys sut y gallai gwahanol ddewisiadau effeithio ar wahanol grwpiau.

58. Hyd yma nid oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) wedi'i gynnal. Pe bai'r GOC yn symud ymlaen o drafod i wneud cynigion penodol, byddai EIA yn cael ei ddatblygu i asesu effeithiau posibl yn fwy manwl, gan gynnwys effeithiau cronnus a chroesdoriadol, ac i ddatblygu mesurau lliniarol pan yn briodol.

59. Gan ddefnyddio data o'n hadroddiad monitro EDI am 2025 ac arolygon o gofrestreion, mae'n amlwg nad yw grwpiau cofrestreion yn unffurf, ac nad yw incwm, rôl, ac amrywiaeth demograffig yn cyfateb yn daclus. O ganlyniad, gall newidiadau i strwythurau ffioedd gael gwahanol effeithiau yn ddibynnol ar rôl broffesiynol, cam gyrfaol, patrymau gweithio ac amgylchiadau personol.

60. Mae proffil demograffig optegwyr cyflenwi ac optometryddion yn gwahaniaethu mewn ffyrdd pwysig. Bydd y ffactorau hyn yn penderfynu pwy fyddai'n talu ffioedd adnewyddu cofrestriad is neu uwch yn ôl rhai o'r opsiynau ar gyfer newid. Mae optegwyr cyflenwi fel grŵp yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd (66.1%) o'i gymharu ag optometryddion (62.2%), ac yn llawer mwy tebygol o ddod o gefndir gwyn (69.4%) nag o gefndir lleiafrif ethnig (20.5%). Mae optometryddion yn dangos mwy o amrywiaeth ethnig ar y cyfan (40.9% gwyn a

48.1% lleiafrif ethnig). Ar yr un pryd, mae optegwyr cyflenwi ar gyfartaledd yn ennill llai nag optometryddion. Mae hyn yn dangos nad yw fforddiadwyedd, rôl broffesiynol a chynrychiolaeth ddemograffig yn cyfateb yn daclus, ac na ellid cymryd yn ganiataol y byddai un opsiwn ffioedd yn deg ym mhob ffordd. Mae proffil myfyrwyr yn y ddau broffesiwn yn newid, gyda chyfran uwch o gofrestreion benywaidd a lleiafrif ethnig, a fydd ymhen amser yn newid proffil y cofrestreion â chymwysterau llawn.

61. Gall opsiynau eraill ryngweithio'n wahanol ag ystyriaethau cydraddoldeb. Mae gostyngiadau sy'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth, rhieni neu fabwysiadu'n debygol o fod o fudd anghymesur i fenywod, sy'n adlewyrchu patrymau cyfrifoldeb gofal. Mae opsiynau sy'n gysylltiedig â throthwyon incwm neu hyblygrwydd taliadau'n debygol o effeithio'n bennaf ar weithwyr rhan amser a rhai mewn rolau â chyflogau is. Mae data arolygon y GOC yn awgrymu bod menywod a chofrestreion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o weithio'n rhan amser a all groestorri ag ystyriaethau fforddiadwyedd mewn sawl opsiwn.

62. Mae dadansoddi data ar rai sy'n gadael y gofrestr yn dangos bod cofrestreion benywaidd yn cyfrif am ~60% o bawb sy'n gadael, sy'n cyfateb fwy neu lai i'w cynrychiolaeth yn y gweithlu. Fodd bynnag, maent wedi'u crynhoi'n anghymesur mewn llwybrau ymadael iau a chanol gyrfa: mae menywod 25–44 oed yn gadael ar gyfradd sy'n deirgwaith yn uwch na dynion yn yr un bandiau oedran. Mae gan fenywod hefyd gyfnodau cofrestru byrrach (canolrif 9–12 blynedd, o'i gymharu â 12–16 blynedd i ddynion).

63. Mae sut mae ffioedd yn cael eu talu hefyd yn berthnasol i gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae cofrestreion sy'n talu eu ffi neu hunain, yn hytrach na bod eu cyflogwr yn talu ar eu rhan, a'r rhai sy'n ennill y cyflogau isaf, yn fwy tebygol o deimlo newidiadau i ffioedd. Nid ydym yn casglu gwybodaeth am incwm gweithwyr proffesiynol unigol. Mae ein harolwg o gofrestreion yn awgrymu bod 54% o optometryddion a 30% o optegwyr cyflenwi wedi talu eu ffi adnewyddu ddiwethaf eu hunain. Roedd y grwpiau sydd fwyaf tebygol o dalu drostynt eu hunain yn cynnwys dynion, cofrestreion o leiafrifoedd ethnig, gweithwyr rhan amser, rhai sy'n gweithio y tu allan i gwmnïau mawr, a rhai sydd wedi bod ar y gofrestr am ddwy flynedd neu lai.

64. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn dangos pwysigrwydd ystyried nid yn unig a yw model ffioedd yn deg mewn egwyddor ond sut mae tegwch yn cael ei brofi ymhlith gwahanol grwpiau. Bydd adborth o'r papur trafod hwn yn helpu'r GOG i ddeall sut mae cofrestreion yn gweld y cydbwysedd rhwng y gwahanol ffactorau a all lywio sut y bydd ffioedd yn cael eu pennu ac a fydd yn sail i unrhyw gynigion yn y dyfodol ac asesiadau o effaith cysylltiedig.

**C2. Pa rai o'r datganiadau isod sy'n adlewyrchu orau eich safbwynt cyffredinol ar ffioedd gwahaniaethol? (Noder y byddwn yn eich gwahodd i roi sylwadau ar bob un o'r pum opsiwn yn y cwestiwn nesaf.)**

**A – Dylai'r GOC gadw'r strwythur un ffi sefydlog presennol**
**B – Dylai'r GOC ystyried cyflwyno ffioedd gwahaniaethol**

Rhowch sylwadau

**C3. Dangoswch eich cefnogaeth i'r pum opsiwn a restrir isod ar raddfa 1-10 (1 = cefnogaeth isaf, 10 = cefnogaeth uchaf).**

**Opsiwn 1 – ffioedd is i optegwyr cyflenwi**

**1 2 3 4 5 6 7 8 9 10**

Rhowch sylwadau

**Opsiwn 2 – ffioedd uwch i gofrestreion â chymwysterau arbenigol**

**1 2 3 4 5 6 7 8 9 10**

Rhowch sylwadau

**Opsiwn 3 – ffioedd is i gofrestreion newydd gymhwyso**

**1 2 3 4 5 6 7 8 9 10**

Rhowch sylwadau

**Opsiwn 4 – cynllun incwm isel mwy hael**

**1 2 3 4 5 6 7 8 9 10**

Rhowch sylwadau

**Opsiwn 5 – ffioedd is i gofrestreion ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, rhiant neu fabwysiadu**

**1 2 3 4 5 6 7 8 9 10**

Rhowch sylwadau

**Gwella hyblygrwydd taliadau**

65. Gall pob unigolyn cofrestredig a chyrff corfforedig drefnu debyd uniongyrchol i dalu eu ffi adnewyddu blynyddol cyn dechrau pob cylch adnewyddu blynyddol, ond ni all cofrestreion dalu mewn rhandaliadau yn ystod y flwyddyn adnewyddu. O gofio'r hinsawdd macroeconomaidd anodd, rydym yn ystyried opsiynau a fyddai'n galluogi cofrestreion i dalu'r ffi flynyddol mewn rhandaliadau debyd uniongyrchol cyfnodol gyda threfniadau gorfodi ar waith os bydd taliadau'n cael eu colli.

66. Er y byddai ein deddfwriaeth yn ein galluogi i newid ein Rheolau Ffioedd i ganiatáu cofrestreion i dalu ffioedd mewn rhandaliadau, ni ellid tynnu unigolion oddi ar y gofrestr am fethu taliadau tan ddiwedd y flwyddyn gofrestru. O'n safbwynt ni, mae hyn yn golygu y byddai system randaliadau'n anymarferol oherwydd y posibilrwydd o grynhoi dyledion drwg, ac y byddai costau hynny yn y pen draw yn cael eu hysgwyddo gan y cofrestreion.

67. Ar hyn o bryd, rydym yn awyddus i weld a oes digon o gefnogaeth mewn egwyddor i dalu mewn rhandaliadau. Os oes, byddem yn ymdrechu i newid y ddeddfwriaeth, ond rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi dweud na fyddai newid yn ein deddfwriaeth yn debygol o fod yn flaenoriaeth yn y tymor seneddol cyfredol.

68. Mae rhai rheoleiddwyr gofal iechyd yn caniatáu taliadau drwy randaliadau debyd uniongyrchol. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ill dau'n caniatáu taliadau drwy bedwar rhandaliad y flwyddyn, ac mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn defnyddio system o bedwar taliad yn ystod cylch adnewyddu o ddwy flynedd. Mae Social Work England yn caniatáu i gofrestreion dalu'r ffi flynyddol mewn dau randaliad.

69. Rydym wedi defnyddio ein harolwg 2025 o gofrestreion i ddeall eu hawydd am system o'r fath. Os oeddent wedi talu drostynt eu hunain neu os oedd eu cyflogwr wedi talu, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a hoffent dalu eu ffi gofrestru mewn rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd mymryn dros eu hanner (53%) yr hoffent dalu mewn rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn, sy'n awgrymu cryn awydd am yr opsiwn talu hwn. Roedd optegwyr cyflenwi, myfyrwyr-optegwyr cyflenwi, a rhai sy'n gweithio'n llawn amser yn fwy tebygol o fod ag awydd i dalu'r ffi mewn rhandaliadau.

70. Mae talu'r ffi adnewyddi'n amod o barhau i fod yn gofrestredig felly byddai'n rhaid cael trefniadau gorfodaeth ynghlwm wrth system o'r fath i ddelio â thaliadau heb eu gwneud. Yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, os collir taliad rhaid i gofrestreion dalu â cherdyn erbyn diwedd y chwarter; daw cofrestriad o ben os na wneir y taliad. Yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, os bydd cofrestrai'n methu taliad, rhaid iddynt dalu'r swm dyledus am y flwyddyn honno erbyn diwedd y mis pan fydd y rhandaliad yn ddyledus. Os byddant heb dalu

erbyn y dyddiad hwnnw, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr, a bydd yn rhaid gwneud cais i gael eu hadfer. Os bydd hynny'n digwydd, ni fydd y cofrestrai'n cael talu mewn rhandaliadau am ddwy flynedd.

71. Er y byddai caniatáu taliadau drwy randaliadau'n helpu cofrestreion i rannu cost rheoleiddio, un o anfanteision hynny fyddai cyflwyno mwy o risg iddynt. Byddai cwmnïau debyd uniongyrchol yn codi am drafodion y GOC a ffioedd tanysgrifio, a byddai'n rhaid inni drosglwyddo'r costau hyn i gofrestreion. Gan fod ffi adnewyddu i fyfyrwyr yn isel, ni fyddem yn cynnig talu mewn rhandaliadau i'r grŵp hwn. Rydym wedi amcangyfrif y byddai effaith costau banc, costau gweinyddol a cholli llog gan y banc yn £94,000 y flwyddyn yn seiliedig ar gyfradd fabwysiadu o 25%. Pe bai'r gost hon yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng yr holl gofrestreion heblaw myfyrwyr, byddai'n cyfateb i £3.47 i bob cofrestrai.

**C4. A hoffech chi pe bai'r GOC yn caniatáu talu'r ffi adnewyddu flynyddol drwy randaliadau debyd uniongyrchol?**

**A – Hoffwn**

**B – Na hoffwn**

**C – Ddim yn gwybod/siŵr**

Rhowch sylwadau

**Ffioedd cofrestreion busnes**

72. I roi cyd-destun, roedd gan y GOC 2,934 o gofrestreion busnes ar 31 Mawrth 2025. Nid ydym yn casglu gwybodaeth am faint y cofrestreion busnes, ond mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[5] yn awgrymu bod 73% o 'optegwyr manwerthu' yn ficrofusnesau (0-9 o gyflogeion), bod 25% yn fusnesau bach (10-49 o gyflogeion), gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn fusnesau canolig (50-249 o gyflogeion) a bod llond dwrn yn fusnesau mawr (250+ o gyflogeion). Busnes corfforedig yn unig all gofrestru â'r GOC, felly mae'r rhan fwyaf o fusnesau sydd heb gofrestru â ni'n debygol o fod yn rhai bychain.

73. Fel y disgrifiwyd yn y trosolwg, mae'r lefelau bodlonrwydd ynglŷn â ffioedd cofrestru'n isel ymhlith busnesau. Yn arolwg 2025 o gofrestreion busnes, dim ond 11% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod y ffioedd yn rhesymol. Mewn ymatebion testun agored, roedd y rhesymau a roddwyd yn ymwneud â chost uchel dybiedig y ffioedd (21%) yn ogystal â diffyg gwerth am arian (18%), wedi'i

[5] UK Business Counts yn seiliedig ar ffurflenni VAT a PAYE returns. [UK Business Counts - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics]

ddilyn gan ymdeimlad o anghyfiawnder am orfod talu ffi gofrestru proffesiynol a busnes (13%) neu ddull cyffredinol o bennu ffioedd optegwyr cyflenwi ac optometryddion (3%). Dywedodd sawl cofrestrai busnes nad oedd dim buddion amlwg yn deillio o gofrestru (8%) ac y dylai'r GOC wneud mwy â'r ffioedd i warchod busnesau rhag cystadleuaeth heb ei rheoleiddio (8%).

74. Yn y cyd-destun hwn, hoffem ystyried a oes modd cyfiawnhau dull gwahanol.

*Cydbwysedd rhwng ffioedd unigol a chofrestreion*

75. Yn 2024/25, cafodd y GOG 87.9% o incwm adnewyddu ffioedd gan gofrestreion â chymwysterau llawn, 1.6% gan fyfyrwyr a 10.5% gan fusnesau. Mae canran ein hincwm ffioedd gan fusnesau'n is nag yw ymhlith rheoleiddwyr eraill. I gymharu, mae'r Cyngor Fferyllol Cenedlaethol yn codi ffi adnewyddu uwch ar fferyllfeydd (£392) nag ar fferyllwyr unigol (£276). Yn ôl y data yn ei adroddiad blynyddol am 2023/24, roedd wedi cynhyrchu tua 21% o'i incwm ffioedd o fferyllfeydd. Pan fydd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn pennu lefel y ffi bob blwyddyn, mae'n gwneud yn siŵr bod y rhan fwyaf o'r incwm ffioedd (60%) yn deillio o ffioedd cwmnïau, gyda'r gweddill yn dod o ffioedd unigolion.

76. O ran costau rheoleiddio, mae maint y gweithgarwch addasrwydd i gynnal busnes yn amrywio bob blwyddyn ond yn 2024/25 roedd cofrestreion busnes yn cyfrif am 8.4% o'r gofrestr ond roedd yn cyfrif am 12.4% o ymchwiliadau. Yn fwy cyffredinol, gwelwyd newid yn y pwyslais ar reoleiddio busnes yn ein gwaith. Felly, un opsiwn yw pennu ffioedd uwch i fusnesau nag i unigolion. Fodd bynnag, mae anfanteision ynghlwm wrth y dull hwn. Nes bydd diwygiadau deddfwriaethol yn ei gwneud yn orfodol i bob busnes sy'n ymgymryd â swyddogaethau cyfyngedig penodol i gofrestru â'r GOC, mae siawns y byddai rhai cofrestreion busnes presennol yn dewis peidio cofrestru eto. Byddai hyn yn lleihau gwarchodaeth i'r cyhoedd a byddai hefyd yn arwain at godi ffioedd i wneud yn iawn am yr incwm a gollwyd. Hefyd, mae data ein harolwg yn awgrymu bod cyflogwyr yn talu'r ffi adnewyddu i tua 44% o gofrestreion unigol; mae hyn yn fwy cyffredin yn achos rhai sy'n gweithio i gwmnïau mawr (58%) nag i rai annibynnol. Gallai rhai deimlo bod cynyddu ffioedd cofrestreion busnes yn annheg ac yn gymhelliad i fusnesau i beidio talu ffioedd adnewyddu i unigolion.

77. Fel enghraifft, mae'r tabl isod yn modelu beth fyddai'r gostyngiad yn y ffi gofrestru i unigolion â chymwysterau llawn pe bai incwm ffioedd yn newid. I ddiben yr ymarferiad hwn tybir na fyddai ffioedd myfyrwyr yn newid.

**Tabl 4 – modelu effaith cyfran uwch o incwm ffioedd busnes**

| % yr incwm ffioedd gan gofrestreion busnes | Ffi busnes | Ffi unigolion |
|---|---|---|
| 15% | £580.65 (£165.65 yn fwy) | £394.33 (£20.67 yn llai) |
| 25% | £967.74 (£552.74 yn fwy) | £348.79 (£66.21 yn llai) |
| 40% | £1,548.39 (£1,133.39 yn fwy) | £280.47 (£134.53 yn llai) |

**C5. Pa un o'r opsiynau canlynol ydych chi'n ei ffafrio?**

**A – Dim newid – cofrestreion unigol a busnes yn talu'r un ffi**

**B – Dylai cofrestreion busnes dalu mwy na chofrestreion unigol**

**C – Dylai cofrestreion unigol dalu mwy na chofrestreion busnes**

Rhowch sylwadau

*Modelau ffioedd ar gyfer cofrestreion busnes*

78. Ar hyn o bryd, mae'r holl gofrestreion busnes yn talu'r un ffi adnewyddu sefydlog. Gan eu bod yn fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar wahân mae masnachfreintiau unigol a chyd-fentrau i gyd yn talu'r ffi, ac felly hefyd y rhiant gwmni. Mae hwn yn fodel syml, ond mi all achosi problemau o ran tegwch. Er enghraifft, gall cwmni annibynnol lleol dalu'r un faint â chwmni â sawl cangen sydd wedi'i ymgorffori fel un endid. Mae cwmnïau â sawl cangen sy'n gweithredu fel cyd-fentrau neu fasnachfreintiau dalu mwy na chystadleuwyr sydd wedi'u ffurfio fel un endid corfforedig.

79. Opsiwn heblaw ffi sefydlog yw un sy'n seiliedig ar fesur maint, fel nifer y practisau, bandiau trosiant, neu nifer y cyflogeion. Gallai hyn olygu model tecach sy'n adlewyrchu'r gost rheoleiddio a'r gallu i dalu. Fodd bynnag, byddai model o'r fath yn dibynnu ar allu'r GOC i bennu ffioedd sy'n seiliedig ar wybodaeth y gellir ei dilysu, sy'n debygol o olygu casglu mwy o wybodaeth gan fusnesau yn seiliedig ar uned y mesuriad a ddewiswyd. Byddai angen datrys rhai materion polisi anodd hefyd, fel y dylai model sy'n seiliedig ar drosiant fod wedi'i seilio ar incwm gweithgarwch optegol yn unig ynteu ar bob gweithgarwch ynteu a fyddai model sy'n seiliedig ar gyflogeion yn seiliedig ar gofrestreion yn unig ynteu ar yr holl gyflogeion.

**C6. Pa un o'r modelau ffioedd canlynol ydych chi'n ei ffafrio?**

**A – Dim newid – mae pob busnes sydd wedi'u cofrestru ar wahân yn talu'r ffi**

**B – Mae busnesau'n talu ffioedd gwahanol sy'n seiliedig ar eu maint**

Rhowch sylwadau

**C7. Ar beth ddylai mesuriad yn ôl maint gael ei seilio?**

**A – Nifer y siopau**

**B – Bandiau sy'n seiliedig ar nifer y cyflogeion**

**C – Bandiau sy'n seiliedig ar drosiant**

**D – Arall**

Rhowch sylwadau

*Talu mewn rhandaliadau*

80. Gallai cofrestreion busnes hefyd elwa drwy dalu mewn rhandaliadau i reoli llif arian, yn enwedig rhai sy'n talu ffioedd adnewyddu ar ran cyflogeion sy'n gofrestreion. Yn arolwg 2025 o gofrestreion busnes, dywedodd 49% o fusnesau yr hoffent dalu eu ffioedd cofrestru fel rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn.

**C8. A hoffech weld y GOC yn caniatáu busnesu i dalu'r ffi adnewyddu flynyddol mewn rhandaliadau drwy ddebyd uniongyrchol?**

**A – Hoffwn**

**B – Na hoffwn**

**C – Ddim yn gwybod/siŵr**

Rhowch sylwadau

**Rhoi eglurder ar ffioedd cofrestreion**

*Ymgynghori ar gynlluniau wedi'u costio a ffioedd cofrestreion*

81. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar ddrafft o strategaeth gorfforaethol pum mlynedd a blaenoriaethau lefel uchel am y tymor canolig. Nid ydym yn ymgynghori ar gynlluniau busnes blynyddol nac ar ffioedd blynyddol cofrestreion. Mae'r rhesymeg sydd wrth wraidd y ffioedd a bennir gennym yn cael ei egluro yn y papurau Cyngor cyhoeddus ar ôl i'r penderfyniad hwn gael ei wneud pob Rhagfyr. Mae ein hadroddiad a chyfrifon blynyddol yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am ein gweithgarwch, incwm a gwariant.

82. Gallai ymgynghori â chofrestreion a rhanddeiliaid eraill ar gynlluniau blynyddol wedi'u costio a ffioedd wella tryloywder a chryfhau ymgysylltiad cofrestreion â ffioedd. Fodd bynnag, mae rhai dadleuon yn erbyn hyn. Yn gyntaf, mae llawer o'n costau mwyaf yn rhai sefydlog (e.e. rhent) neu'n ddibynnol ar alw (e.e. ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a sicrhau ansawdd cymwysterau cymeradwy). Yn ail, mae'r ystyriaeth ymarferol y byddai ymgynghori ar gynlluniau wedi'u costio a ffioedd yn ychwanegu cryn amser at ein proses cynllunio busnes, sydd eisoes yn cychwyn naw mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol. Byddai cychwyn y broses hon yn gynharach a/neu grynhoi prosesau mewnol i alluogi cyfnod o ymgynghori allanol olygu bod perygl i'n cynlluniau golli gysylltiad â realiti.

83. Pan fydd ein deddfwriaeth yn cael ei diweddaru, fel bydd yn digwydd i rai rheoleiddwyr gofal iechyd eraill hefyd, rydym yn disgwyl y bydd gofynion o ran tryloywder ac atebolrwydd wrth bennu ffioedd ac ar adrodd yn cael eu cryfhau. Dylai'r gofynion hyn ddod yn fwy eglur yn dilyn ymgynghoriad y llywodraeth ar ddeddfwriaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol, sydd i weithredu fel glasbrint ar gyfer diwygiadau i ddeddfwriaeth yr holl reoleiddwyr gofal iechyd.

84. Yn y tymor canolig, rydym yn credu y byddai'n fuddiol i ymgynghori ar ddrafft wedi'i gostio o strategaeth gorfforaethol pum mlynedd. Mae gwelliannau i'n rhagamcanion ariannol tymor hir yn golygu y gallwn yn awr ragweld anghenion incwm y dyfodol yn fwy hyderus. O fewn hyn, gallwn ddangos ein disgwyliadau yn achos cyfeiriad ffioedd cofrestreion yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys y tybiaethau sy'n sail iddynt, fel twf y gofrestr. Nid ydym yn teimlo y byddai'n ymarferol i ymgynghori ar gynlluniau busnes blynyddol wedi'u costio; fodd bynnag, bydd manylion y cyllidebau hyn ar gael ym mhapurau'r Cyngor a gyhoeddir ac yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

*Ffioedd un neu sawl blwyddyn*

85. Un opsiwn ar gyfer newid fyddai bod y GOC yn penderfynu ar y ffi adnewyddu ddwy flynedd (neu fwy) ymlaen llaw. Mae'r ffi flynyddol yn tybio beth fydd niferoedd cofrestreion a ffactorau eraill, sy'n bethau a all newid. Byddem fel arfer yn disgwyl rheoli amrywiadau mewn incwm ffioedd drwy gronfeydd wrth gefn ond byddai angen system i addasu ffioedd mewn amgylchiadau eithriadol.

86. Mantais fwyaf yr opsiwn hwn yw y gallai roi mwy o sicrwydd i gofrestreion ynglŷn â chost rheoleiddio dros gyfnod hwy. Fodd bynnag, un risg i'r GOC fyddai cymhelliant diogelwch yn gyntaf i godi ffioedd yn uwch na'r hyn sydd ei angen rhag ofn i rywbeth annisgwyl godi. Gallai hefyd gyfyngu ar ein gallu i reoli adnoddau'n effeithiol ac effeithlon. Byddai'r risg hon yn fwy pe bai cylchoedd ffioedd yn cael eu pennu dros gyfnod hwy, fel eu cysylltu â'n strategaeth pum mlynedd. Gallai newidiadau yn y ddeddfwriaeth, llwyth

achosion addasrwydd i ymarfer, darparwyr cymwysterau a meysydd eraill, gael effaith sylweddol ar yr incwm rydym yn ei gael ei angen i gyflawni ein gwaith. Er bod gennym, ar hyn o bryd, gronfeydd wrth gefn da, efallai na fyddai symud i gylch ffioedd aml-flwyddyn yn briodol ar hyn o bryd am fod y marchnadoedd byd-eang mor ansefydlog.

87. Yn strategaeth gorfforaethol 2025-30 rydym yn nodi ein bod yn disgwyl y bydd lefelau incwm cyffredinol yn codi rhywfaint, yn unol â chwyddiant a thwf y gofrestr. O gofio hyn ac anfanteision modelau cylch ffioedd aml-flwyddyn, nid ydym yn ffafrio'r opsiwn hwn ond mi hoffem wybod a fyddai cofrestreion yn ffafrio system o'r fath.

**C9. A hoffech chi inni ymgynghori ar gynlluniau wedi'u costio a ffioedd?**

**A – Hoffwn**

**B – Na hoffwn**

**C – Ddim yn gwybod/siŵr**

Os hoffech, disgrifiwch sut yr hoffech weld y gwaith yn cael ei wneud.

**C10. A hoffech inni ystyried cyflwyno cylchoedd ffioedd aml-flwyddyn?**

**A – Hoffwn**

**B – Na hoffwn**

**C – Ddim yn gwybod/siŵr**

Rhowch sylwadau

**Y Gymraeg**

88. Yn ôl safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol ein bod yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (positif neu negyddol), y byddai'r penderfyniad polisi'n ei gael ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

89. Yn y cam trafod hwn, rydym o'r farn nad yw'r opsiynau a nodwyd sy'n ymwneud â strwythur a thalu ffioedd yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn effeithio ar sut mae'r Gymraeg yn cael ei thrin. Pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu ymhellach, byddwn yn edrych eto ar ystyriaethau'r Gymraeg fel rhan o unrhyw asesiad o effaith ffurfiol.

**C11. A fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith, positif neu negyddol, ar:**

**(i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**

**(ii) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

a) Byddant yn achos (i)

b) Byddant yn achos (ii)

c) Na fyddant yn achos (i)

d) Na fyddant yn achos (ii)

e) Ddim yn siŵr yn achos (i)

f) Ddim yn siŵr yn achos (ii)

Rhowch sylwadau.

**C12. A ellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel y byddant yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:**

**(i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**

**(ii) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

a) Gellid yn achos (i)

b) Gellid yn achos (ii)

c) Na ellid yn achos (i)

d) Na ellid yn achos (ii)

e) Ddim yn siŵr yn achos (i)

f) Ddim yn siŵr yn achos (ii)

Rhowch sylwadau.

**C13. A ellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel na fyddant yn cael effeithiau negyddol, neu effeithiau llai negyddol, ar:**

**(i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**

**(ii) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

g) Gellid yn achos (i)

h) Gellid yn achos (ii)

i) Na ellid yn achos (i)

a) Na ellid yn achos (ii)

b) Ddim yn siŵr yn achos (i)

c) Ddim yn siŵr yn achos (ii)

Rhowch sylwadau.

*Asesiad o effaith*

90. Nid ydym wedi cynhyrchu asesiad o effaith gan mai papur tafod yw hwn yn hytrach nag ymgynghoriad ar gynigion penodol. Fodd bynnag, gweler paragraffau 53 i 56 uchod sy'n ystyried elfennau cydraddoldeb.

## Adran 3: Sut i ymateb i'r papur trafod

29. Rydym yn gwahodd ymatebion rhwng 27 Ebrill a 20 Gorffennaf.

30. Byddem yn ddiolchgar pe gallech fewnbynnu eich ymatebion yn ein hyb ymgynghori fel y gallwn gasglu gwybodaeth amdanoch chi neu eich sefydliad ac a allwn gyhoeddi eich ymateb.

31. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n bosibl, gallwch ymateb drwy e-bostio consultations@optical.org. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi a ydych yn ymateb ar eich rhan eich hun neu ar ran sefydliad, pa sefydliad yr ydych yn ymateb ar ei ran, ac a oes caniatâd inni gyhoeddi eich ymateb ac i'ch enwi chi neu eich sefydliad.